Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod	**2il Chwefror, 2023.**
Presennol	John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa)
Ymddiheuriadau	Enid Egginton (Garndolbenmaen), Edward Evans (Bryncir), Gwilyn Evans (Prenteg), Sarah Jones (Pentrefelin), Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Sir Cyngor Gwynedd), John Till (Golan)
Datgan Buddiant	Neb

Penderfyniadau

Archwiliad Allanol:	Adroddwyd fod y cyfrifon 2021/2022 wedi eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Diolchwyd i'r cyn-glerc am ei gwaith caled.
Adolygu Costau Ffôn a Chyfrifiadur Clerc:	Penderfynwyd cynyddu'r lwfans cyfrifiadur o £15.00 i £20.00 y mis a ffôn o £10.00 i £15.00 y mis.
Arolwg Hyfforddiant:	Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar wahân i fynd drwy'r arolwg hyfforddiant ac i lunio ymateb i'r arolwg. Clerc i drefnu.
Sedd Wag Pentrefelin a Phenmorfa:	Derbyniwyd un cais ar gyfer Penmorfa ac un cais ar gyfer Pentrefelin. Penderfynwyd cyfethol y ddau. Clerc i gysylltu â'u gwadd i'w cyfarfod cyntaf fis nesaf.
Cais am arian:	Penderfynwyd cyfrannu £200.00 allan o Gronfa'r Cadeirydd tuag at achos Rachel Heal, Rhiant Ysgol Hafod Lon i helpu i

	brynu beic arbenigol i blant oed cynradd yr ysgol.
Adroddiad Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (2016)	Derbyniwyd yr adroddiad. Clerc i'w gyhoeddi ar y wefan.